# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2018-2019

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **08 Mai 2019.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes diben arall iddo. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Councillors:** | Peter Black | **Adran Etholiadol:** | Cwmbwrla |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | Deputy Lord Mayor |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Mynychais gyfarfodydd PACT misol gan ymdrin â materion a godwyd gyda swyddogion a dosbarthais gylchlythyr chwech wythnosol rheolaidd i bob cartref yn y ward.

Mi fues i â'm cyd-gynghorwyr yn ymdrin â nifer o faterion. Roedd y rhain yn cynnwys:

- cynnig cymorth i grŵp lleol sy'n ceisio adfer mynwent Babell
- rhoi pwysau ar y Swyddfa Bost i ailagor cangen yn Nhrefansel
- defnyddio cronfeydd cymunedol i helpu i wella diogelwch yng Nghanolfan Cwmbwrla/Trefansel
- adrodd am nifer mawr o dyllau yn y ffordd a'u hatgyweirio
- llwyddo i gael y cyngor i orffen y gwaith tirlunio o gwmpas maes parcio Ysgol Burlais
- trefnu bod blodau gwyllt yn cael eu plannu mewn ardaloedd allweddol yn y ward
- rhoi pwysau ar yr isadran gorfodi cynllunio i sicrhau bod busnesau ar hen safle Blyth's yn agor ac yn cau'n rheolaidd
- parhau i roi pwysau ar yr adran draenio i fynd i'r afael â llifogydd yn Heol Eaton
- defnyddio'r Tîm Neat a'r adran glanhau i ddelio â'r tipio anghyfreithlon a'r sbwriel yn yr ardal
- rhoi pwysau ar Network Rail i chwistrellu canclwm Japan y tu ôl i Stryd Courtney
- gwneud Stryd Richard a rhan o Stryd Courtney yn rhai unffordd ac ariannu'n rhannol gyfarpar chwarae newydd ar gyfer Parc Cwmbwrla
- trefnu bod Tai Coastal yn gosod atalfeydd i atal parcio ar y palmant yn Rhes Pleasant
- cytuno â'r Gymdeithas Tai y bydd y datblygiad newydd ar hen safle Ysgol Cwmbwrla'n cael ei alw'n Clos John Charles
- gwrthwynebu toriadau i oriau agor Llyfrgell Brynhyfryd
- cynnig cefnogaeth i Circus Eruption er mwyn ailddefnyddio Eglwys Sant Luc
- trefnu bod canllawiau i gerddwyr newydd yn cael eu gosod ar Stryd David yn lle'r hen rai
- gweithio gyda pherchennog newydd hen Ysgol Trefansel i gadw'r safle'n ddiogel
- ymdrin â chwynion niferus am ailgylchu, casglu sbwriel, baw cŵn, sbwriel, problemau tai a llawer mwy.

**Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2018-2019

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.
Gallwch weld penodiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

Mi es i i nifer o ddigwyddiadau dinesig fel Dirprwy Arglwydd Faer, y manylir arnynt yn fy mlog 'Mayoral Musings' yma: swanseamayoralmusing.blogspot.com/

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Mi fues i â'm cyd-gynghorwyr ward yn dosbarthu cylchlythyr i bob cartref yn y ward bob chwech wythnos, gan ddefnyddio'r cylchlythyr hwn i dynnu sylw etholwyr at y buddsoddiad yn ein system addysg gan Weinidog Addysg Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Rydym yn parhau i herio'r gwaharddiad ar fynd â sachau du i ganolfan ailgylchu Penlan a'r cyfyngiad ar dri sach sy'n cael ei osod ar breswylwyr. Rydym hefyd yn gwrthwynebu'r cynnydd o 6.7% yn nhreth y cyngor sy'n uwch na chwyddiant a basiwyd ym mis Chwefror 2019, gan dynnu sylw at y ffaith bod treth y cyngor ar gyfer Band B wedi cynyddu i £1,246.16 y flwyddyn. Mae hynny 38% yn fwy nag yn 2012, neu £343.68 ychwanegol mewn blwyddyn lawn.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rwy'n parhau i gynnal grŵp Facebook cymunedol gyda bron 5,000 o aelodau o'r enw Cymuned Cwmbwrla, Trefansel, Brynhyfryd a Gendros, sydd ar gael yma:
https://www.facebook.com/groups/141803462890431/

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Dinesig (Dirprwy Arglwydd Faer): £18,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma.
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 06/06/2019 |